Trawsgrifiad - gwaith Ehangu Mynediad

Gayle: Yn Y Brifysgol Agored mae gennym gwricwlwm amrywiol iawn fel bod dysgwyr yn gallu dechrau ar lefelau gwahanol gan ddibynnu ar eu cefndiroedd unigol. Felly, er enghraifft, efallai y bydd rhai o'n dysgwyr am ddefnyddio rhai o'n hadnoddau addysgol agored am ddim ar OpenLearn, tra bydd eraill, o bosibl, am ddechrau ar un o'n modiwlau mynediad, neu hyd yn oed mynd yn syth i mewn i astudiaeth israddedig lefel un. Mae fy nghyd-weithiwr, Eleri Chilcott newydd arwain y gwaith o ddatblygu ein canllaw llwybrau i lwyddiant newydd. Mae'r canllaw hwn yn cynnig llwybrau strwythuredig iawn drwy gynnwys OpenLearn ac mae gennym lwybrau ym meysydd Gwyddorau Cymdeithasol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gwyddoniaeth a'r Celfyddydau a'r Dyniaethau, yn ogystal â rai canllawiau ar sgiliau astudio hefyd. Yng Nghymru, rydym yn gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol, fel WEA Cymru, Carers Trust Cymru a'r Undebau Llafur, yn ogystal â phartneriaid y gymuned lleol a phartneriaid rhanbarthol i gynnig darpariaeth hyblyg hyd at astudiaeth addysg uwch ar gyfer eu dysgwyr. O ganlyniad, mae gennym amrywiaeth o brosiectau dilyniant llwybrau a gynhelir gyda phartneriaid ledled Cymru. Mae ein prosiect Hyrwyddwyr OpenLearn yn enghraifft o hyn. Yma rydym yn hyfforddi pobl mewn cymunedau i fod yn hyrwyddwyr yn y gymuned a hyd yn hyn rydym wedi hyfforddi 120 o hyrwyddwyr OpenLearn er mwyn helpu i gau'r bwlch rhwng y dysgwr ar y naill law a chynnwys gwych OpenLearn ar y llaw arall.